



YSGOL I.D. HOOSON

6.3.20

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Eisteddfod - Llongyfarchiadau a da iawn i'r holl blant a fu'n perfformio yn yr eisteddfodau ysgol ddiweddar. Pleser oedd cael gweld PAWB yn cymryd rhan ac yn mwynhau y perfformiadau adrodd a canu. Llongyfarchiadau mawr i Cari Rowlands o flwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth y gadair am waith ysgrifennu cerdd, ac i Keiron Manchester o flwyddyn 5 am ennill cystadleuaeth y goron am ysgrifennu stori.

Urdd - Hoffwn hefyd longyfarch yr holl blant a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar yn Ysgol Bryn Tabor. Roedd pob un wedi gwneud ei gwaith yn wych. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddiant arbennig gan y byddant yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir a fydd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn Mawrth 28ain yn Ysgol Gwynedd, Y Fflint.

Llefaru Bl.2 ac Iau / Year 2 and under recitation - Isla Webster (1af), Elen Dodd (2ail)

Unawd Bl.2 ac Iau / Year 2 and under solo - Elen Dodd (1af),

Unawd Bl.3 a 4 / Year 3 & 4 solo - Elan Davies (1af) Ffion Rowlands (2ail)

Llefaru Bl.3 a 4 / Year 3 & 4 recitation - Elan Davies (2ail)

Unawd Bl.5 a 6 / Year 5 & 6 solo - Carys Edwards (1af)

Grŵp Llefaru / Recitation group - (2ail)

Grŵp Ymgom Group - (2ail)

Piano - Jasmine Williams (2ail)

Deuawd / Duet - Cari Rowlands & Jasmine Williams (1af)

Unawd offerynnau taro / drum solo - Dion Buffey (1af)

Parti unsain / Unison party - (1af)

Parti Cerdd dant / Cerdd dant party - (1af)

Grŵp cerddoriaeth greadigol / Creative music group - (1af)

Da iawn a llongyfarchiadau mawr hefyd i'r dawnswyr a fu'n cystadlu yn eisteddfod ddawns y Cylch yn y Stiwt yn ystod yr wythnos. Bydd y canlynol yn mynd ymlaen i gystadlu yn eisteddfod ddawns y Sir ar y 18fed o Fawrth.

Grwp Dawns Greadigol / Creative Dance Group - 1af

Grwp Dawns Aml-gyfrwng / Mixed media Dance group - 1af

Dawns unigol Hip-Hop/Stryd/ Solo Hip-Hop/Steet/Disco Dance - Mischa Walters (2ail)

Lluniau Ysgol - Bydd cwmni Tempest yn yr ysgol ar ddydd Mercher (18.3.20) i dynnu lluniau'r disgyblion. Dylai'r Meithrin prawn ddod i'r ysgol ar yr amser arferol er mwyn cael tynnu llun. Mae croeso i frodyr/chwiorydd sydd heb ddechrau yn yr ysgol eto i ddod yma peth cyntaf yn y bore i gael llun teulu. Bydd lluniau o frodyr a chwiorydd sydd yn yr ysgol yn cael ei wneud yn ystod y dydd.

Cyfarfod CRhA - Cynhelir y cyfarfod CRhA nesaf ar nos Lun Mawrth 16eg am 6 o'r gloch.

Coronavirus - Bydd pawb erbyn hyn yn ymwybodol o'r sefyllfa o ran y Coronavirus. Hoffwn eich hysbysu ein bod fel ysgol yn annog ac yn atgyfnerthu negeseuon o ran pwysigrwydd glanweithdra i'r disgyblion ac yn pwysleisio y pwysigrwydd o olchi dwylo yn drylwyr. Byddwn yn ymateb i unrhyw ganllawiau a chynghor pellach a ddaw i ysgolion gan yn Awdurdod Lleol yn briodol.

Comic Relief - Oherwydd digwyddiadau eraill ar ddydd Gwener, Mawrth 13eg byddwn yn codi arian tuag at ymgyrch **Diwrnod Trwyn Coch Comic Relief ar ddydd Llun Mawrth y 16eg**. I godi arian tuag at yr ymgyrch byddwn yn cynnal diwrnod gwallt gwirion. Gofynnwn am gyfraniad o £1 gan bob plentyn.

Gan ddiolch i chi am eich cydweithrediad parhaus.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth